Lefel 4

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Eiriolaeth Annibynnol

CHWEFROR 2020

Cynnwys

	Rhif tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	3
Cynnwys y pwnc	3
Cynllun asesu	4
Canlyniadau	5
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	5
Gofynion rhesymegol	6
Gofynion gweithredol	6
Atodiad A	9

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Hydref 2018)*[1]*: Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol. Datblygwyd y rhain drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu'r fanyleb a deunyddiau asesu ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol.

Nod y cymhwyster hwn yw datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr ymddygiadau a'r sgiliau sy'n sail i rolau ym maes Eiriolaeth Annibynnol.

Datblygwyd y cymhwyster hwn mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid sector allweddol, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW).

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i'w ddarparu gan ystod o ddarparwyr addysg, gan gynnwys addysg mewn gweithle, addysg bellach ac addysg uwch, ar gyfer dysgwyr sy'n 18 oed ac yn hŷn.

Lle bo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Bydd y meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon yn dod i rym o fis Ionawr 2020 ac yn cael eu hadolygu yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant[2] ar gyfer addysgu ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol.

Bydd yr holl gymwysterau yn y gyfres yn cael eu cyfyngu i un ffurf yn unig ar gyfer pob cymhwyster am gyfnod o bum mlynedd. Ar gyfer y cymhwyster hwn, bydd y cyfnod yn dechrau ar 1 Medi 2020. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a gaiff ddyfarnu pob cymhwyster. Ar ôl proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng Ionawr 2017 ac Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi contractio gyda chonsortiwm o City & Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres ar y cyd.

[2] https://www.qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf

Dim ond cymwysterau sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*[3] y bydd Cymwysterau Cymru yn eu gymeradwyo. Wrth ddatblygu cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn mae'n rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Mynediad Teg drwy Ddylunio*[4]. Rhaid i'r corff dyfarnu a gomisiynir hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y contract consesiynau a ddyfarnwyd yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a ragnodir yn yr Amodau Cydnabod Safonol, bydd y gofynion yn y ddogfen hon yn cael blaenoriaeth.

Strwythur a chynllun y cymhwyster

1. Rhaid i'r fanyleb ar gyfer Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol gynnig ardystiad cymhwyster i ddysgwyr gyda Chyfanswm Amser Cymhwyso (TQT) o 520 awr (52 credyd) a bydd angen ei ddiffinio yn nhermau Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH).

2. Mae i'r cymhwyster Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol gynnwys gorfodol (Grŵp A) a chynnwys dewisol (Grŵp B) (gweler Atodiad A).

3. Rhaid grwpio'r cynnwys dewisol (Grŵp B) yn bedwar llwybr cymeradwy:

   3.1 Eiriolaeth Annibynnol gydag Oedolion

   3.2 Eiriolaeth Annibynnol gyda Phlant a Phobl Ifanc

   3.3 Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol

   3.4 Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol

4. Rhaid i deitl y cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau fod fel a ganlyn:

   Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol

5. Rhaid i gynllun Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol sicrhau y caiff nodau ac amcanion y pwnc eu hadlewyrchu yn yr asesiadau er mwyn galluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

6. Rhaid i fanyleb Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol nodi unrhyw reolau cyfuno sy'n berthnasol i'r unedau dewisol.

[3] https://qualifications.wales/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cyrff-dyfarnu/monitro-cyrff-dyfarnu/
[4] https://www.cymwysteraucymru.org/media/4740/mynediad-teg-drwy-ddylunio.pdf

Nodau ac amcanion y pwnc

7. Rhaid i Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol alluogi dysgwyr i ddatblygu ac arddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu hymddygiadau, eu sgiliau a'u hymarfer o fewn cyd-destun eu harbenigedd dewisedig. Yn benodol, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

    7.1 datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o fewn y llwybr a ddewiswyd;

    7.2 datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol, a chonfensiynau ac offerynnau hawliau dynol sy'n berthnasol i'r llwybr a ddewiswyd;

    7.3 datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i sicrhau bod barn, dymuniadau a dewisiadau plant a phobl ifanc/unigolion a/neu ofalwyr yn cael eu cynrychioli;

    7.4 datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol sydd â meddyliau chwilfrydig yng nghyd-destun y llwybr a ddewiswyd;

    7.5 defnyddio dull ymchwilgar a beirniadol i sicrhau bod egwyddorion eiriolaeth yn sail i arfer;

    7.6 datblygu hunanymwybyddiaeth er mwyn gwella ymarfer yn y llwybr a ddewiswyd;

    7.7 datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau mewn ystod o leoliadau/cyd-destunau;

    7.8 defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol o fewn eu rôl.

Cynnwys y pwnc

8. Mae'n rhaid i gynnwys manyleb Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

9. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol gynnwys y cynnwys gorfodol (Grŵp A) a bennir yn Atodiad A.

10. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol gynnwys y llwybrau canlynol:

    10.1 Eiriolaeth Annibynnol gydag Oedolion

    10.2 Eiriolaeth Annibynnol gyda Phlant a Phobl Ifanc

    10.3 Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol

    10.4 Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol

11. Nodir y cynnwys ar gyfer pob llwybr yn Atodiad A (Grŵp B).

Cynllun asesu

12. Caiff Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol ei asesu drwy:

    12.1 bortffolio o dystiolaeth;

    12.2 arsylwi ar ymarfer;

    12.3 cofnod myfyriol

    12.4 cyfrif sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth; a

    12.5 thrafodaeth broffesiynol.

13. Rhaid i bob asesiad (y manylir arnynt ym mharagraff 12) ymdrin â chyfran sylweddol o'r cynnwys. Ar gyfer pob llwybr, rhaid cwmpasu'r holl gynnwys gorfodol a ddisgrifir yng Ngrŵp A, a'r cynnwys ar gyfer y llwybr dewisedig a ddisgrifir yng Ngrŵp B, ar draws yr asesiadau. Wrth gyflwyno'r cymhwyster i'w gymeradwyo, bydd yn ofynnol i'r corff dyfarnu ddarparu rhesymeg sy'n esbonio ei ddull o benderfynu pa gynnwys sy'n dod o dan ba gydran asesu.

14. Rhaid i'r fanyleb nodi math a maint y dystiolaeth i'w chasglu at ddibenion asesu.

15. Rhaid i'r cymhwyster fod yr un mor heriol i bob dysgwr, ni waeth pa unedau a ddilynir.

16. Rhaid i'r cynllun asesu sicrhau:

    16.1 bod y meini prawf a'r gofynion ar gyfer yr ymarfer a gynhaliwyd, a'r trefniadau ar gyfer asesu'r ymarfer hwn, wedi'u nodi'n glir;

    16.2 bod unrhyw amodau a ganiateir ar gyfer cynnal asesiadau drwy efelychu wedi'u nodi'n glir, gan gynnwys enghreifftiau o amgylchedd gwaith realistig.

17. Rhaid dangos tystiolaeth o'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer y cynnwys dewisol drwy'r asesiadau.

18. Rhaid i'r meini prawf marcio ddangos sut mae pob agwedd ar asesu yn ymwneud â'r canlyniadau dysgu.

19. Rhaid bod cyfleoedd asesu ar gyfer Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol ar gael drwy gydol y flwyddyn.

20. Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol gynnwys manylion ar gyfleoedd i ailgyflwyno.

Canlyniadau

21. Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r holl asesiadau gofynnol yn llwyddiannus (gan fodloni unrhyw reolau cyfuno) yn cael eu hardystio.

22. Rhaid i deitl y cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau gynnwys enw'r llwybr ardystiedig mewn cromfachau. (Gweler meini prawf cymeradwyo 3.)

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

23. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu:

    23.1 dogfen fanyleb;

    23.2 ystod gynrychioliadol o ddeunyddiau asesu enghreifftiol, sy'n dangos amrywiaeth o lwybrau cymharol;

    23.3 dogfen esboniadol (dogfen resymeg) sy'n amlinellu'r rhesymeg y tu ôl i brif nodweddion cynllunio'r cymhwyster a gynigir a sut maen nhw'n alinio â chasgliadau Adolygiad y Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae;[5]

[5] https://qualifications.wales/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/iechyd-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

Gofynion rhesymegol

24. Pwrpas y ddogfen resymeg yw cefnogi'r broses o adolygu a chymeradwyo cymwysterau ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

25. Rhaid i'r ddogfen resymeg gynnwys esboniad dros:

25.1 strwythur y cymhwyster, gan esbonio'r rhesymau dros y ffordd y mae'r cynnwys wedi'i strwythuro;

25.2 y dull o ddatblygu tasgau;

25.3 y strwythur asesu, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, nifer, dyraniad y marciau a hyd yr asesiadau;

25.4 y cyfleoedd asesu sydd ar gael a'r dull o sicrhau bod y cyfleoedd hynny ar gael drwy gydol y flwyddyn;

25.5 dehongli'r canlyniadau dysgu a sut maen nhw'n berthnasol i'r gwahanol gydrannau asesu;

25.6 dyluniad deunyddiau a chanllawiau asesu enghreifftiol, gan gynnwys y math a'r ystod o dasgau asesu ar draws y cymhwyster a'u perthynas â'r canlyniadau dysgu;

25.7 sut y caiff y meini prawf marcio eu dylunio a'u cymhwyso;

25.8 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

25.9 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymwysterau hyn yn gyson ac i'r lefel briodol, gan gynnwys y broses ar gyfer gosod a chynnal safonau;

25.10 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys y rhesymeg ar gyfer y ffin basio/methu arfaethedig wrth asesu a dyfarnu'r cymhwyster.

Gofynion gweithredol

26. Rhaid i'r fanyleb a/neu'r wybodaeth ategol nodi'r gofynion o ran gwybodaeth a chymhwysedd (pwnc ac asesu/sicrhau ansawdd) ar gyfer aseswyr, ac aswirwyr ansawdd mewnol ac aswirwyr ansawdd allanol, sy'n briodol ar gyfer cymhwyster ar y lefel hon.

27. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys manylion penodol am y gofynion gweithredol, gan gynnwys:

    27.1 cofrestriadau;

    27.2 sicrwydd ansawdd;

    27.3 prosesau asesu allanol.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Imperial Park
Coedcernyw
Newport
NP10 8AR
Enquires@qualificationswales.org

Atodiad A - Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol

Mae'n rhaid i fanyleb Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol gynnwys y canlyniadau canlynol o ran cynnwys a dysgu. Mae hyn yn cyfrif am 100% o gyfanswm cynnwys a chanlyniadau dysgu'r cymhwyster.

Grŵp A: Cynnwys gorfodol

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys ymarfer gorfodol y cymhwyster Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol.

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
1. Darparu eiriolaeth annibynnol – egwyddorion ac ymarfer	1.1. Deall eiriolaeth annibynnol 1.2. Defnyddio egwyddorion eiriolaeth annibynnol yn ymarferol 1.3. Cefnogi unigolion i gael mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol 1.4. Cefnogi unigolion a/neu ofalwyr i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau drwy eiriolaeth 1.5. Cefnogi unigolion a/neu ofalwyr i wneud penderfyniadau 1.6. Datblygu eu hymarfer eu hunain fel eiriolwr annibynnol yn barhaus 1.7. Herio penderfyniadau drwy eiriolaeth annibynnol 1.8. Defnyddio eiriolaeth i ddylanwadu ar newid cymdeithasol, cydraddoldeb a chynhwysiant 1.9. Deall dulliau o ddiogelu
2. Deall deddfwriaeth yng nghyd-destun eiriolaeth annibynnol	2.1. Deall pwysigrwydd datblygu gwybodaeth am ddeddfwriaeth yng nghyd-destun eiriolaeth 2.2. Deall y Ddeddf Hawliau Dynol 2.3. Deall y Ddeddf Cydraddoldeb 2.4. Deall y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2.5. Ddeall y Ddeddf Iechyd Meddwl 2.6. Deall deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc 2.7. Deall Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
	2.8. Deall Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 2.9. Deall deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg

Grŵp B: Cynnwys y llwybr

Bydd y cynnwys canlynol yn ffurfio cynnwys y llwybrau ar gyfer y cymhwyster Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol.

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
3. Eiriolaeth Annibynnol gydag oedolion	3.1. Defnyddio deddfwriaeth sy'n ymwneud ag eiriolaeth annibynnol i lywio ymarfer 3.2. Cefnogi unigolion a/neu ofalwyr sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer eiriolaeth annibynnol 3.3. Cefnogi unigolion a/neu ofalwyr i gyflwyno eu barn, eu dymuniadau a'u dewisiadau mewn cyfarfodydd penderfynu 3.4. Cyflwyno barn, dymuniadau a dewisiadau unigolion a/neu ofalwyr mewn cyfarfodydd lle na allant wneud hynny eu hunain 3.5. Cefnogi unigolion a/neu ofalwyr i ddefnyddio prosesau anffurfiol a/neu ffurfiol i herio penderfyniadau

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
4. Eiriolaeth Annibynnol gyda phlant a phobl ifanc	4.1. Defnyddio deddfwriaeth sy'n ymwneud ag eiriolaeth annibynnol i lywio ymarfer 4.2. Darparu gwybodaeth am gymorth eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc 4.3. Darparu cynrychiolaeth a chefnogaeth eirioli i blant a phobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer eiriolaeth annibynnol 4.4. Cefnogi plant a phobl ifanc i gyflwyno eu barn, eu dymuniadau a'u dewisiadau mewn cyfarfodydd penderfynu 4.5. Cyflwyno barn, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc mewn cyfarfodydd penderfynu lle nad ydynt yn gallu neu'n dymuno gwneud hynny eu hunain 4.6. Cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio prosesau anffurfiol a/neu ffurfiol i herio penderfyniadau
5. Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol	5.1. Defnyddio Codau Ymarfer a deddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd meddwl i lywio ymarfer 5.2. Rhoi cymorth i unigolion sy'n defnyddio eiriolaeth heb gyfarwyddyd 5.3. Cefnogi unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol 5.4. Cefnogi unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer materion sy'n ymwneud â chyfyngiadau neu amddifadu o ryddid 5.5. Sicrhau diogelwch wrth ddarparu cymorth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol

Meysydd Pwnc	Canlyniadau Dysgu
6. Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol	6.1. Defnyddio Codau Ymarfer a deddfwriaeth sy'n ymwneud â galluedd meddyliol i lywio ymarfer 6.2. Rhoi cymorth i unigolion sy'n defnyddio eiriolaeth heb gyfarwyddyd 6.3. Deall y prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau 6.4. Cefnogi unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â newid llety tymor hir 6.5. Cefnogi unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â thriniaeth feddygol ddifrifol 6.6. Cefnogi unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag adolygiadau o'u gofal a'u cymorth 6.7. Cefnogi unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â phryderon o ran diogelwch 6.8. Cefnogi unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer materion sy'n ymwneud â chyfyngiadau neu amddifadu o ryddid